Kenys Dalglish

HANES

Y

33

LLAN

Llanllyfni

Fe awn a chi am dro i'r Llan
Lle 'roedd siopau ym mhob man.

Heibio'r becws a round y tro
Beicwyr a heicwyr yn dod am dro
Lawr i'r King's Head, a rhw am wydryn
Neu i Bookseller i brynu llyfryn

Arogl crasu o selar Glyndwr
I fyny i Compton am sgidiau i'r gŵr
Siop Manchester a dwy o ffenestri
Liverpool House lle gwerthid llestri.

Y tafaf yn y dyffryn oedd Griffydd Jôs
Yn gwerthu cig tan (tan) hannernos
Siop John Griffudd a'r blind mawr coch
Mynd a'r hwch i Benbrynmoch

Dyna'r Llan yn y dyddiau gynt
Tra llifai Llyfnwy ar ei hynt

Siopau Llanllyfni Tua diwedda y ganrif ddiwethaf

Rhedyw House = groser
Siop Ellen Lewis = penog picl, diod sinsir, bara brethynau
Siop Hugh Jones = seimon = groser = a
Weligton House = teiliwr = John Williams
Siop Pant y Llan = groser
Siop Betsan Roberts Gwyndy = groser
London House = groser
Liverpool House = groser = Llestri
Siop William Jones = Bookseler = groser
Siop Melan Parry = newyddau groser chacenau
Corntwn house = crydd trwsio a gwneud esgidiau
Tŷ uchaf = Shop llestri
Siop Jennie Roberts = melysion a chacenau
Siop Bwtsier Robert = William
Siop William Griffydd = Cigydd a groser
Siop Glyndwr = newyddau a groser
Siop Henry Williams = glanaber = groser
Manchester House = Siop Groser a Theilwr.

Yr Ysgol

Dyma'r enwau Prifathrawon yr Ysgol. 1863 -64 Robert Jones, 1864-67 John Roberts; 1867 -74 Hywel Robert; 1874-75 James evans; 1875 -88 Edmund Williams; 1888-24 John B Davies 1925 -1946 Hugh Griffith, O.b. 1946-1951 Williams 1952-1961 G. R. Jones 1962-74 G. Owen. 1974 a R. H Robert y prifathro presennol

Yr ysgol

Un o'r ysgolion cyntaf yn y llan oedd honno a gedwid yng nghapel T'yn lon. Agorwyd y capel yn 1781. Mae gennym hanes am ryw John Roberts, Llanllyfni a fun athro ac mae lle i gredu ei fod wedi bod yn athro yma cyn 1800 Dywed Robert Jones Ochr y Foel y Pregethwr enwog ei fod wedi cael blwyddyn yn 1815 yn Llanllyfni gyda gweinidog ifanc. Yn "Brad y llyfrau Gleision 1847 "Ceir hanes ysgol 17 o enethod a 31 bachgen Dywedir hefyd y bu ysgol mewn tŷ, yng nghanol y pentref yn ochr isaf i Neuadd

Wen. Tŷ ysgol sydd yn awr wedi ei
chwalu o enw tŷ popty. Hen filwr oedd
yr Ysgolfeistr cyntaf ac ni bu ei arhosiad
yma ond byr. Aeth yn ddrwg rhyngddo
a rhai o'i ddisgyblion ac aeth i ffwrdd
ar ol cael curfa iawn ganddunt.
Am ychydig o flynyddoedd bu ysgol
Nos yn lloft yr hen Bersondy. gydar
Person yn athro. Ond yn fuan daeth rhai
Pentrefwyr deimlo y dylid cael gwell cyfleste
rau addysg a ffurffiw pwyllgor i godi
Ysgol ddiddorol. Rhoddwyd darn o dir
at y purpas yn mhen uchaf y pentref
gan foneddiges o'i henw Mrs Jones.
Saethwyd y cerrig gan y chwarelwr
ar ol ey horiau gwaith a chludwyd
hwy at yr adeiliad gan y Ffermwyr.
Fel yna yn weddol ddigost a thrwy
lawer o oberth gwifroddol y daeth yr
Ysgol Frytanaidd i fod. Agorwyd yr
ysgol yna Mehefin 1863.

Lôn Ddŵr.

Un diwrnod yn Mehefin 1935 sylwodd fy
hen nain i Sioned fod golwg rhyfedd
iawn ar yr awyr. Roedd fy hen nain
yn byw ar fferm Tŷn Pwll. Tua amser
cinio aeth poaman yn dywyll, roedd storm
ar ffordd. Aeth i chwilio am ganwyll a
gwelodd nad oedd ganddi ond darn bychan
iawn a ganwyll. Gwelodd nad oedd amser
aeth i weiddi ar bawb i ddod i mewn
i'r tŷ. Aeth y dynion ar anifeiliad i'w cadw.
Yn sydyn dyna glec fel bod yr awyr wedi
torri'n ddau. Ar hyny dyma'r llifogidd
mwyaf a welodd neb erioed. Aeth fy hen
nain a phawb arall ir llofft gyda'r
darn ganwyll. Erbyn hyn raedd y dŵr
wedi boddi y rhan-isaf o'r tŷ ac raedd
yn dal i godi. Caria'r Dŵr popeth o'i
flaen yn gaed a chloriau. Raedd tai yr
rhan isaf o'r pentref o dan ddwr i
yd. Bu pobl yn hir iawn yn clirio
llanast ar ol y llifogydd. Dgwed fy

hen nain hyd ei bedd fod gwyr[redacted]th
wedi digwydd y noson honno oherwydd fe
barodd y darn canwyll drwy'r nos tan
y bore.

Rhif 6 Rhostai Tyddun Rhedyw

Yr oedd yno bedwar o bobl yn byw yn
ty ni yn 1871. Eu henwau oedd David Jones
penteulu, Ellen ei Wraig, William ei fab a Elizab-
eth ei wyres. Chwarelwr oedd David Jones ac roe-
dd yn 60 oed. Cafodd William ei Fab ieni yng
Nglynog. Yr oedd William yn 24 ac yn gweith-
io yn y chwarael. Cafoedd Elisabeth ei wyres
ei geni yn Ffestiniog. Ei hoed oedd 6 oed. Mae
rhif 6 Tyddyn Rhedyw yr rhif 19 Ffordd
rhedyw heddiw a'i enw yw Berwyn.

Hanes yr Eglwys ym Mhlwyf Llanllyfni

Cred rhai pobl bod eglwys yn Llanllyfni mor fuan a'r bedwaredd ganrif. Enw yr Eglwys yw Eglwys Sant Rhedyw. Mae rhai yn dweud mai o'r enw Rhedicus y daw Rhedyw ac eraill yn dweud o'r gair Credfyw. Mae ffynnon Rhedyw mewn cae agored i'r gogledd orllewin o'r eglwys. Un amser roedd yna ddwy stêp i lawr iddi o bob ochr. Roedd dŵr y ffynnon yn cael ei ddefnydd yn yr eglwys i'r gwasanaeth bedyddio. Ar un adeg roedd y ffynnon mewn adeiliad bychan. Ar lethrau mynydd Dolbenmaen yn agos i'r afon y mae llecyn arall yn gysylltiedig ar sant sef Eisteddfa Rhedyw lle y dywed i'r sant dreulio llawer o'i amser. Ar dalan yr eglwys o'r tu allan yr oedd delw o Sant Rhedyw. Wrth ymyl hyn yr oedd camfa a charreg rni ac fel y deuai'r addolwyr i'r Eglwys ymgrymant o flaen y delw nes gyfnewyd garreg. Y mae'r garreg hon yna mur

y fynwent a Mechi wrth ei phen a'r gëriau hyn arni, "Y garreg a lefa o'r mur".
Fe ehangwyd yr eglwys yn 1032.

Cloch Llanllyfni

1. Mi glywais gloch Llanllyfni
Gerllaw yn afon gul,
Yn mesur oriau heddwch
Yng ngosteg llawer Sul.

2. Tros feddau y blynyddoedd
Y daw fel sŵn hen dôn,
Y dweud nai truan ydwyf
A meddal yn y bôn.

3. Ond heddiw mwyn yn adlais
Tros randir pell y co;
A'r llais yn llafar ganu
Llaswyr y sanctaidd fro.

4. Ac weithiau clywaf seiniau
Rhyw bell a dieithr wawd,
Y dychau sy'n y Llannen
Nos gwêl ein llygaid cnawd.

Gwilym R. Jones.

Anfonwyd hen gloch o Eglwys Llanllyfni i Eglwys Llanddewi yn y Dyffryn Uchaf, Patagonia. Wrth ei chlywed yn canu yn y wlad bell ysgrifennodd William Hughe (Caeron) brodor o Fronyfoel, y gerdd hon.

1. Henafol gloch Llanllyfni
   Mae sŵn dy ding-dong di
   Yn fywiol i atgofion
   Am fore oes yn Arfon
   Ai theg lechweddau hi.

2. Ond lle mae'n hen gyfoedion?
   Y tadau, lle maent hwy?
   Ar fynydd dro o Arfon
   Daw hanes hen gyfeillion
   Yn mynwes werdd y plwy

3. Aeth weithian drigain mlynedd
   O'm heinioes er y pryd
   Y clywais dy ding dong gyntaf
   Ar finior Llyfnwy araf
   Lle tlysaf yn y byd.

4

4. Henafol gloch Llanllyfni
   A oes hiraeth arna ti
   Am Arfon hardd fynyddig
   A Chymru grysagedig?
   Mae hiraeth arna fi.

Capel Moria

Adeiliadwyd capel Ty'n lon gan y Bedyddwyr yn y flwyddyn 1787 Yr oedd yn y capel bach Cyfforddus iawn gyda llawr pridd wedi ei orchuddio a matiau gwellt a fflatiau eich yn hongian ar y muriau. Yn y capel hwn y dechreuodd Achos Moria. Roedd y pump aelod cyntaf yn Cael benthyg capel Ty'n lon i gynnal gwasanaethau. Un o'r rhain oedd dyn o'r enw William Moses Williams ac arferid galw'r capel gan rai o drigolion y pentref yn "Capel Williams Moses" Yn ystod y flwyddyn 1870 pan oedd nifer gwyr Annibynwyr yn gynyddu gan fod llawer o bobl yn dod i'r ardal i'r diwydiant llechi, Penderfynwyd na wnaent Capel benthyg mor tro. Dechreuwyd adeiladu ar ddarn o dir cyferbyn a chapel Ty'n lôn. Yr oedd yn barod i'w agor erbyn dydd Iau Dyrchafael 1871.

Capel Ebeneser

Codwyd y capel cyntaf i'r Bedyddwyr yn
Llanllyfni y 1708 Hen gapel Tunlon
oedd hwn. Bu ar un adeg yn cael ei
defnyddio fel ysgol. Hefyd roedd yr
Annibynwyr yn ei defnyddio. Defnydd
-iwyd coed o hen gapel Tynlon i
adeilady tai eraill yn y pentref.
Yn 1827 agorwyd addoldy newydd
yn Felingerrig. Gweinidog mwyaf enwog
y Bedyddwyr oedd Robert Jones, ochor
y fael ac mae wedi ei gladdu yn
mynwent felingerig. "Yn awr trwy
ddaioni yr Arglwydd, a mawr ymdrech
yr ydym wedi cael un or addoli
prydferthaf yn yr holl wlad yr ydym
hefyd wedi cael un o'r addoldai prydferth
-af yn yr holl wlad yr ydym hefyd
wedi prynu darn heralth o dir yn
ei ymyl i gael mynwent nad oes
moi gwell wrth un eglwys na chapel
o aberdaron i Gonwy" Robert Jones.

Capel Salem

Dechreuir hanes gapel Salem drwy son am y pedwar wil sef.

William Williams
William Dafydd
William Sion
William Roberts

Byddair pedwar ffrind yma yn teithio gydai gilydd i wrando ar gryw bregethwr methodist a daeth i'r cyffiniad. Tua 1763 dechleuodd y methodystiaid bregethu yn Llanllyfni yn yr awyr agored wrth gwrs yn ymyl ty'r Buarthau cartref William Williams. Priododd William Williams a Catharin Pritchiad ac aeth y ddau i fyw Buarthau a thrwy gyntadad per chenog y tŷ agorwyd y drws i gael pregethu ynddo. Daeth Tri wil arall yno a hefyd Ann, chwaer William a hwy yr adeg hynny a sefydodd yr achos Methodistiad yn llanllyfni yn 1766. Yn 1711 a llawer

mwy wedi ymuno ar achos penderfynodd adeiladu capel ar dir gerllaw yr Buarth. Maint y capel oedd 24 x 18, Yn 1813 oedd 120 o aelodau a codi capel newydd ddal 300 o wrandawyr codwyn ef ar ran o a elwid yn cae refail Costiodd y Capel £1.000

Yn 1819 pasiwyd i roi Oriel yn y capel yn 1862 Ei enw oedd W. M. Jones.

Ffair Llanllyfni

Diwrnod mawr yw ac oedd y bed o Orffen-af pryd y cynhelid y ffair sef ffair Llyfan. Mae dechrau hon yn mynd yn ol na wyr neb pa môr bell. Ers talwm yr oedd yn gyrchfa ymlaen darn mawr o wlad oddiamgylch. Edrychai pawb ymlaen at y ffair. Ychydig ddyddiau ynghynt gwelid cerbydau trymion yn gwneud eu ffordd twar pentref. Byddair plant yn llawn o sbri gan mae rhain oedd yn arwyddion iddynt bod y ffair yn agosau. Byddair cerdyn a'r gair Temprans arno ymhob ffenestr. Yna deuai diwrnod y ffair. Byddai'r plant yn codi'n gynar chedydd y bore hwnnw. Yn gynnar yn y bore bach gasachech weld cerbydau yn cael eu tynnu gan asynod. Yr oedd y cerbydau yma yn llawn o gelfi. Deuai merched neu fodis o'r dre i werthu Injaroc. Roeddant yn gwisgo hetiau mawr flat a siolau du. Roedd yr Inja roc werth ei gael i'r plant lleaf yr oedd yma gychwod

bach yn hwylio yn yr awyr. Dyna'r yn y
ddyddiau yn llawn o sbri a mri

Manchester House

Adeilad yn cynnwys dau lawr seler ac attic
a gweithdy fel "lean to" ar yr ochr ogleddol
oedd Manchester House. Yr oedd Entry i'r
cefn heibio'r gweithdy. Nid oedd lôn gefn yr
adeg honno felly'r oedd rhaid cael
entry. Pair ystafell wely a siting room oedd
ar y llawr cyntaf ag atic wedi ei
rannu yn dair ystafell wely a grisiau go
iawn i fynd yno. Draper oedd yn byw yno.
Yr oedd rhaid cadw'r adeilad mewn cyflwr
i blesio'r Tir feddiannwr a rhoi hawl
i hwnnw ddod i mewn i'r tŷ iw
archwilio. Yr oedd Miss Minnie Roberts
ai chwiorydd yn cadw siop yno. Yr
byw yn y tŷ yn 1871 oedd John
Roberts pen y teulu, oed 35 cyn brifathr
ysgol Llanllyfni a siopwr.
Gwen Roberts gwraig, oed 35 Ffestiniog
Elinor ei merch, 7 oed, yn yr ysgol Llan
ymedd. William O mab 6 oed, Llanllyfni
Jane M Roberts, merch 1 oed Llanll

Elisabeth Parry morwyn, 18 Meliwraig
Anne Williams. 18 morwyn Llaniestyn

Rhosgrunman

Y mae chwedl nodiedig yn cael ei adrodd ar lafar gwlad. Un bore teg o wanwyn aeth bugail i Cwm Dulyn i chwilio am ei braidd. Gwelodd (wrth) yn ymyl llyn Cwm Dulun fintai fawr o Wyddelod wedi gwersyllu yno. Rhedodd y bugail at yr awdurdodau. Yna afonwyd brys negeswyr i Lyn a Chricceth i nôl milwyr. Yr oedd y Gwyddelod yn mynd i arheithio'r wlad i gyd. Pan gyrhaeddodd y brys negeswyr yn ôl gyda'r milwyr aethant i dorri ffosydd ar Rhosgrunman. Yna cuddio ynddynt a rhoi dipyn o ~~wair~~ wair drostynt. Pan welodd y milwr y Gwyddelod yn dod cododd pob un o'r ffosydd a lladd llawer o'r Gwyddelod a gyrru y lleill or ardal.

Marthá'r Mynydd

Ofer-goelus iawn oedd y bobl yn Mynydd Llanllyfni tua dau gan mlynedd yn ôl. Yno trigai gwraig o'r enw Marthat Mynydd. Roedd Marthar mynydd yn honni ei bod yn cael ymweliad gan Ymwelediagion bob gydar nôs yn ei thŷ eu hun. Doedd neb o'r

bobl yn medru gweld yr Anweldigion ond Martha'r Mynydd. Ond roedd pawb yn ei choelio Roedd yno ddyn ifanc iawn yn byw yn Llanllyfni a'i enw oedd Guto Gwir Gast. Roedd yn mynd i gyfarfod nôs yn nhu Marthar Mynydd. Un diwrnod penderfynodd Martha i wisgo fel rhyw Mrs Igram a roedd pawb yn coelio bod Mrs Ingram yn medru gweld yr Anweldigion hefyd. Aeth Mrs Igram i bregethu i tŷ un noson a fe ddywedodd wrth yr Anweldigion am ddod i lawr. Roedd hi yn ei gweld ond roedd y gynulleidfa yn edrych o gwmpas. Un diwrnod llosgodd Martha ei throed, clywodd Guto Gwir Gast am hyn. Sathrodd Guto droed Mrs Igram a rhgoddodd sgrech dros y ty. Dywedodd. Dywedodd Guto wrth y bobl eu bod wedi ei twyllo. Ond roedd y bobl yn dal i gaelio Marthar. Edifarhau a wnaeth Marthar ymunodd ar Methodists calfinaidd yn Llanllyfni

Daniel Pugh

Roedd cymeriad (gwei) gwreiddiol iawn yn y pentref sef Daniel Pugh. Roedd yn byw yn 15, Rhestai Tyddyn Rhedyw. Gelwir y tŷ heddiw yn TIRONFA. Roedd yn cadw ceffyl hefyd, ag yn mynd a'r ceffyl trwy'r tŷ i'r cefn. Nid oedd ffordd gefn y pryd hynny. Roedd gan Daniel Pugh frawd o'r enw Tomas Pugh. Fe anawyd y ddau yn Llanllyfni. Roedd ganddo chwaer hefyd o'r enw Margret Williams. Ganwyd hi yn 1839. Mae bur debyg ei bod hi wedi colli ei gŵr ag wedi mynd i fyw gyda'i dau brawd. Fe anwyd Daniel Pugh yn y flwyddyn ~~1829~~ 1839 a'i frawd Tomos yn ~~1827~~ 1827. Daniel Pugh oedd pennaeth y tŷ. Yn y chwarel roedd yn gweithio gyntaf ag yn nes ymlaen roedd yn cario nwyddau o Stesion Penygroes i'r siopau yn Llanllyfni. Roedd ei frawd yn gweithio yn y chwarel hefyd. Roedd pump yn byw yn y tŷ, sef. Daniel Pugh, Tomas Pugh, Margret Williams

a'r plant, Elisabeth Williams, a Daniel Williams. Y Daniel Pugh hwn oedd yr enwog Daniel Pugh a glywid amdano yn y dywediad

Pwy ddechleuodd Ffair Llanllyfni?
Daniel Pugh a Daniel Parry.

Yn 1839 Morris Roberts oedd y melinydd yr Melin Llanllyfni. Roedd Morris Roberts yn barddoni a'i enw barddol Eos Llyfnwy. Un tro llosgwyd y felin a cheisiodd Morris Roberts gymorth y pentrefwyr i'w hail godi trwy afon llythur rydlynt yn gofyn am arian. Llwyddodd i'w hail adaladu ac ar yr achlysur hyn fe esgrifenodd Robert Ellis clochydd benthion addas i'r amgylchiada.

① Wel dyma Felin wisgi,
Ynghanol plwyf Llanllyfni.
Agádd ei gweithio, gyda brys
Gael Morus o'r mieri.

② Gobeithio caiff lawenydd,
Wrth drin y Felin newydd.
Nes hela aur ac arian gôd,
Ac ennill clod y gwledydd.

③. Cewch drin eich ydau gwedi,
Yn lanwaith mewn goleuni,
Rwy'n dweud yn gadarn na wneiffe o
Fyth dwyllo dim wrth dolli

④ Na ddeled byth i'w ddilyn,
Anffawd nag un anffortun,
Na chroesti mwy, ond gwy y ged,
Da deled o Gwm Dulyn

Robert Ellis (Clochydd
Llanllyfni)

Melin Morris Robert

Yn 1838 Morris Robert oedd y melinydd yn melin Llanllyfni. Roedd Morris Robert yn barddoni a enw barddol oedd Eos Llyfnwy. Un tro llosgwyd y felin a cheisiodd Morris Robert gymorth y pentrefwyr i'w hail godi drwyr anfon Llythyr iddynt yn gofyn am arian. Llwyddodd i'w hail adeiladu ac yn achlysur hyn fe ysgrifenodd Robert Ellis clochydd bendithiodd addos ir amgylchiad.

Wel dyma felin wisgi
Yng nghanol plwy Llanllyfni
A gadd ei gweithio gyda brys
Cael Morris o'r mieni.

Gobeithio caiff lawenydd
Wrth drin y melin newydd
Nes hela aur ac arian gôd
Ac enill clod y gwledydd.

Cewch drin eich ydau gwedi
Yn lanwaith mewn goleuni
(3) Rwy'n dweud yn gadarn na unwaith
o fyth dwyllo dim wrth ddilli

Hi fywyd, iechus lachaus
Hyd fagwedr a fydda i farus
(4) A boed y rhan o'r daith yn ôl.
Yn siriol a chusuron.

Na ddeled byth i'w dilyn
Anfaed nag un amfordyn
Na cherster mwy ond gwy y caed
Da deled o Gwm Dulun.

Tafarnau Llanllyfni

Mae gennym hanes am chwe tafarn yn ardal Llanllyfni. Mae pedair yn adbyddus i lawr ond mae'r ddwy arall yn hŷn. Dywedir bod tafarn yn ngwaelod y pentref ac o'r cyfrifiad 1871 gwelwn yr enw yn WELINGTON INN (ermwyn) er nad chlywn son amdani yn unman arall. Raedd tafarn hefyd i lawr yn ymyl y rheilffordd o'r enw "tafarn y caecia. Cafodd dau nofi drwydd ed i agor tafarn yng Nhaed cae du. Caed y caecia y gelwid hwy yr adeg hynny a chael telynor yno i ddiddorir bobl. Tafarn oedd hon i'r nofis a oedd yn adeiladu "Cop y caecia i'r rheilffordd. Raedd hogiau pentref y llan yn mynd draw i'r dafarn er muyn cael cwffio gydar nofis. Y pedw-ar ty tafarn arall oedd y QUARRY, Y FFORI KINGS HEAD ar Bermo. Tafarn oedd y Ber mo erstalwm ond pan aeth Miss M Morris

yno i fyw raedd y drwydded wedi
gorffen. Raedd y simdde fawr yn y
gegin ffrynt. Wrth fynd heibio o'r
ysgol gallwn weld y muriau llydan
cryfion. Y Bermo ywr tŷ hynnaf yn
y Llan heddiw. Collodd y ffort neu'r
Dafarn uchaf y drwydded tua 1902. Yn
1886 Laura Parri oedd yn cadw'r dafar'n.
Yn 1910

Hanes ar dâp

Cefais yr hanes hwn gan un o ferched y pentref
"Ceisiaf roi i chi fraslun o hanes fy mhlentyndod
yn Llanllyfni. Yn y felin yma ganwyd a taid
oedd y melinydd. Raedd yn yr adeg honno
olwyn yn cael ei throi a dŵr. Yn y ffordd
hyn y malwyd y grawn yn flawd. Drws nesaf i'r
felin yn y cefn oedd y lladd-dy Griffth Jones
y Cigidd. Yno hefyd raedd tŷ coed yn cynnwys
dwy ystafell-pedair llath bob ffordd. Yr oedd
gwr a adeiladodd y ty hwn wedi bod yn yr
America ac raedd wedi llunio'r tŷ yn debyg
i dai coed y wlad honno fel caban coed.
Yn y tŷ o'i flaen yr oedd John Griffith
yn byw. Raedd John Griffith yn mynd o
gwmpas yn gwerthu peirianau gwnio (Singer
Sewing Machine) a dyna pan ei gelwid
yn John Griffith-Machines. Ychydig uwch
wedyn oedd Siop Pant-y-Gog. Yn y siop
hon raedd peiriant malu coffi beans a
bydden wrth ein bodd yn mynd yno er
mwyn arogli y coffi. Yn y pentref yr

oedd cymeriad o'i enw Evan Wyn a fy
ddaw yn i ni plant y gan hon "Pwy
ddarn dy guro di?" "Pan oeddwn yn blentyn
nid oedd cinio nadolig yn yr ysgol
ond drwy garedigrwydd dwy athrawes Miss
J. A. Robert yn gwneud y pwdin
Nadolig a Miss. A. E Hughes yn gwneud y
menyn Melys.

Hanes ar dap (Mrs Hughes 4.7)

Pentref bychain tawel yw Llanllyfni ar y
briffrod rhwng Caernarfon a Phortmadog.
Yn yr hen amser ychydig iawn a ddim
cyffrous oedd y tarfu ar dawelwch y
pentref. Ychydig iawn o dai oedd
yma i gymharu a heddiw. Roedd gwai
amryw o siopau siopau a phedair tafarn.
Yr oedd Eglwys Sant Rhedyw ar capeli yn
leoedd pwysig iawn. Y rhai hyn oedd y
ganolfan diwylliant y pentref Chwarelwyr oedd
mwyafrif o'r tadau yn gweithio'n galed am
gyflog prin. Cofiaf glywed corn y gwaith
yn canu am saith y bore. Golygai'
hyny fod rhaid gychwyn yn fuan yn
ol chwech i fod yno ar ganiad
y corn - yna gweithio galed drwy'r dydd
o saith y bore hyd pump y phnawn.

Injian tŷ Gwyn

Ffatri gwneud llechi ysgrifennu ers talwm
oedd Injian Tŷ gwyn. Byddai bechgyn yr
ysgol yn ymadael yn ddeuddeg oed
er mwyn cael mynd i weithio yno.
Roedd hyn tua chan mlynedd yn
ôl. Doedd neb yn ei galw yn Ffatri
nac yn felin dim ond Injian Tŷ Gwyn.
Roedd plant yr ysgol yn ysgrifennu gyda
phensil llechan. Unwaith yr oedd yr
athro wedi marcio y gwaith ar y
llechi (roedd y gwaith a'r y llechi
roedd y gwaith yn cael ei olchi oddiarni.
Ffram bren oedd o amgylch y llechi.
Olwyn ddŵr yn gweithio y Injian fel
bod y llechi yn cael gwyneb llyfn.
Carreg nadd roedd y plant yn galw
ei phensel lechan. O chwarel y Cilgwyn
yr oedd y llechi yn dod. Fe ddaeth
diwedd ar Injian tŷ Gwyn pan ffeindwyd
y gellid gwneud y gwaith yn
llawer hwylusach yn y Grafog ger Groeslon

Rwan mae'r Injian tŷ gwyn wedi mynd
a daes dim i'w weld yno. Bum yno
am dro o'r ysgol ond nid oedd mieri
yno. Mae gennym lechi ysgrifenu yn
yr ysgol o hyd. Roedd y llechi sgwennu
yma yn cael ei allforio i wledydd
Europ ac hefyd i Hong Kong. Yn
yr injian ~~yn~~ hefyd yn gwneud eich y
pluyf. Yn 1890 dwy punt a chweigian
oedd rreis arch.

Hanes ar dâp

Un noson euthum i tŷ nain gyda'r tap
recordydd er mwyn cael dipyn o hen hanes
Llanllyfni. Mae fy nain yn 70 mlwydd oed.
Dyma rhai o hen haneision Llanllyfni. Mewn
congl yn lon gefn byddai gan hen
wraig o'r enw Elin Ellis ddau fochyn
mewn cwt. Roedd Elin Ellis yn byw yn
y tŷ a elwir yn hafod rwan. Cofiaf ddwy
neu dair o enethod eraill a minnau
yn hel malwod a'r hyd y lle a'i rhoi
yng nghafn y moch. Pan ffendiodd Elin
Ellis hwy roedd yn ei galw'n ~~ya~~ bob
énw. (Ellis hwy) Mae traddodiad yn y
Llan i gynal Plygain yn yr eglwys
a ninnau wêdi dysgu carolau hefo
Harri Parry Llanberis ac wedyn bod yn
cael mynd i'r tŷ at y tân i
ddysgu hefo fo a Mrs Parry. Rhaid
oedd codi i fynd i'r eglwys bo'r gloch
y bore dydd Nadolig a chanu o'i
hochr hi. Mae'n arferiad sy'n

dal o hyd ond bod yr amser
arbyn hyn wedi mynd yn 7 o'r
glorch ar ~~fore~~ ~~Caton~~ gloch yn
lle chwech. Cofiaf hefyd fel byddai
Person y plwyf ar fore calon yn
taflu ceiniogau ar y lawnt o flaen
y ~~Rhiffordd~~ Rheithordy a phawb yn
sgrialu i hel y ceiniogau rhai yn
cael mynnai glydd. Nid oedd Church
Room yr adeg hynny ond rwyf
yn cofio yn dda adeiladu Church
Room sydd yna rwan. Cyn hynny
hen tŷ o enw Tŷn llan oedd
yna. Roedd yna gae o dan y fynwent
ac yn ei ganol hen Ffynôn Rhedyw
lle byddant yn bedyddio plant
bach ynddi.

Mrs A. G. Robert

Pentref difyr oedd Llanllyfni flynyddoedd
yn ôl. Yr wyf yn cofio saith siop groser
ac yn fwy diweddar agorwyd dwy siop
groser arall. Rwyf yn cofio hefyd pedair
siop gigydd, un siop esgidiau a dwy
siop ddillad. Roedd gweithdy teiluriad tu
ôl i Compton. Roedd yma bedwar tŷ
tafarn, Bermo, Ffort, Quarry a Kingshead.
Roedd y Quarry hefyd yn gwerthu
glo. Roedd gan Robert Roberts y
Quarry 'Frec' i gario plant yr Eglwys pan
fyddant yn mynd i lan y môr am
drip ysgol Sul. Cofiaf hefyd am
hen ffâir Llanllyfni ar "Loving
Picture" a genod yn dawnsio.
Byddai'r plant yn edrych ymlaen
at y ffair ac wrth eu bodd pan
ddeuai yn amser ffair. Y mae ffynnon
yn y cae o dan yr Eglwys lle
byddent yn arfer bedyddio. Mae
hon wedi ei chuddio yn awr.

Byddai pawb yn cyrchu i'r plygain Nadolig am chwech yn y bore, mae hyn yn parhau o hyd ond bod yr amser erbyn hyn wedi newid i saith

Hanes ar dâp

Neithiwr bum yn nhy fy nain gyda'r recordydd tâp a dyma beth a ddywedodd fy nain. Rwyf yn 75 mlwydd oed. Y peth sydd yn fy nghof i yw hen felin y pentref yn gweithio hefo olwyn ddŵr fawr yn malu blawd i'r ffermydd. John Parry clochydd yr Eglwys oedd yn byw yn y felin ac yr oedd mulod yn cario blawd i'r ffermydd ar ôl ei falu. Pantref difyr iawn oedd Llanllyfni yr amser hynnw a'r hogiau yn hel at ei gilydd yng ngweithdy'r crydd ac yn y siop y barbar gyda'r nos i glywed straeon difyr a chael llawer o hwyl efo i gilydd. Y mae ffair yn mhentref Llanllyfni bob blwyddwn ac y mae son y dechreuai hon mewn gwas anaeth ac wedyn yr oedd y ffair yn agor ar ôl y gwasaneth.

Daniel Parry

Mewn hen dŷ a oedd yn ymyl yr Eglwys ble mae'r Church room rwan y trigai Daniel Parry. Cafodd Daniel Parry ei eni yn 1828. Roedd Daniel Parry yn berchennog ar stabl ac ar un adeg roedd yn gyrru'r goets fawr. Roedd y goets fawr yn stopio yn stabl Daniel Parry i newid pedolau'r ceffylau ac yna cario 'mlaen gydar daith i Borthmadog. Byddai 'n dweud straeon wrth y plant ag yn rhoi peth da iddynt, fel arfer Bulls Eye. Roedd Daniel Parry yn hoff iawn o blant ac yn ffeind iawn. Enw ei wraig oedd Mary ac roedd ganddo dri o blant a'u henwau oedd, Robert, John, ac Anne. Enw tŷ Daniel Parry oedd Tynllan. Clywsoch mae'n debyg y dywediad yma.

Pwy ddechreuodd ffair Llanllyfni?
Daniel Puw a Daniel Parri.

1 Daniel sydd un o'r dynion - a foli'r
Gan filoedd yn gyfion;
Yn ddibaid a llygaid llon,
odiaethol i'r ymdeithion

2. Dyn yw le yn dwyn ei lwyth - o
ddegawn Ddiogel ac osmwyth,
Heb ddamwain, brad nag adwyth,
Un dyfal, cystal ag wyth.

3 Yn sirol bob amserau - yn darbod
Erbyn amgylchiadau;
O'i fodd hwn yn ufuddhau
Yn gyson a'i negesau.

Ffarmio yn mhlwyf Llanllyfni

Ar fynydd Llanllyfni dau gan mlynedd yn ôl roeddant yn torri mawn. Roedd gan bob tyddyn ei domen mawn ei hunan tu allan i'r tŷ. Roeddant yn cynnau tân gyda'r mawn. Tyfwyd llin i gynhyrchu brethyn cartref. Roedd hyn yn ffynnu cyn 1831 pan newidiwyd y gyfraith ynglŷn â mewnforio llin. Bu hau llin hyd at 1870 yn y plwyf. Roedd porthmyn yn defnyddio'r ffordd drwy bentref Llanllyfni. Clywn sôn am Dafydd ap Ieuan Thomas o Llanllyfni a dorrodd y gyfraith yn ystod Teyrnasiad Elizabeth Iaf am ei fod yn borthmon heb drwydded. Tyddynwyr Chwarelwyr oedd llawer o

Chwareli Llechi –

1 Foel
2 Llwyn Coed
3 Tŷ'n Llwyn
4 Tyddyn Agnes
5 Taldrwst
6 Fronheulog
7 NEW Fronheulog
8 Singrig
9 Tanrallt
10 Coedmadog
11 Hafodlas
12 Cornwall
13 Talysarn
14 Tŷ'n y weiglodd
15 Dorothea
16 Gallt y fedw
17 Blaen y cae
18 Yr allt lechi
19 Tŷ ~~ma~~ Mawr West
20 Tŷ Mawr
21 Gwernor
22 Twll Balast
23 Twll Mawr
24 Cloddfa'r Lon
25 Twll Ismaeliad
26 Penybryn
27 Cilgwyn
28 Wern Ifan
29 Penyrorsedd
30 Fron
31 Old Braichrhydd
32 Braich
33 Pretoria
34 Bryn fferm
35 Moel Tryfan
36 Alaxandria
37 Gors y Bryniau

Tyrpeg y Berth

Wrth ymyl tŷ Emyr oedd tyrpeg erstalwm ac
yr oeddant yn gwneud chwedeg punt y flwyddyn
Wrth ymyl yr tyrpec oedd Efail ac yno
roeddant yn cael pres am badoli ceffylau.
Defnyddiwyd yr arian a gasglwyd i gadw'r
ffyrdd mewn cyflwr da. - Tollau -

2g 1p - ceffylau neu ful.

4g 2½p - ceffyl a throl (Lled yr olwynion yn llai na
6c modfedd).

12p (swllt) 5p - ceffyl a cherbyd gyda rhywun
yn teithio ynddo.

10c - 4p am bob ugain anifal mewn gyr o wartheg

5c - 2p am bob ugain dafad, neu lo, neu fochyn,

Yr oedd hyn yn llawer o arian
erstalwm. Heddiw does dim tyrpec yn Berth
ond ffordd fawr yn mynd yn syth o Borthmadog
i Gaernarfon. Pan oedd y Cyngor sir
yn sythyr ffordd ac roedd rhaid i'r ffermwyr
dalu am ei anifeiliad wrth fynd a hwy farchnad
Ar un adeg roedd y ffordd hon yn cael
ei defnyddio gan y porthmyn.

Melin Flawd a Gwaith Dŵr

Roedd y melinwr yn defnyddio cokes i dwymo'r odyn lle cresid yr ŷd cyn ei falu rhwng meini'r felin. Colosg yw y gair Cymraeg am cokes. Tua diwedd y ganrif ddiwethaf penderfynodd Cyngor Dosbarth Gwyrfai a oedd newydd gael ei sefydlu gan ddeddf gwlad, i roi mewn gweithrediad gynllun i gyflewni dŵr trwy bibellau i bob tŷ ym mhentref Nebo, Llanllyfni, Talysarn a Penygroes sef pentref plwyf Llanllyfni. Cyn hynny roedd pobl y pentrefi yn cael dŵr o'r pistyll yn ymyl Bontcrychddwr. Roedd y melinydd yn defnyddio dwr o afon Llechffrwd a honno wedi ei chwrdd a afon Crychddwr yn agos i bentref Nebo i droi olwyn ddwr melin Bryn Gro. Roedd ganddo hawl i gael y dŵr am ei fod yn rhedeg drwy dir o ac yr oedd yn dibynnu ar hynny i ennill ei fywoliaeth. Os byddai'r cyngor yn codi argae ar draws pen y llyn yna ni fyddai digon o ddŵr i droi'r felin. Aeth y melinydd a'r cyngor i gyfraith

a bu rhaid iddynt gwthio i ddwr
o lyn Cwm Dulyn i'r afon bob dydd. Yr
oedd to y felin wedi cael ei wneud allan
o fwd a gwellt. Felin fach iawn oedd Melin
Bryngro,

John Roberts Llangwm - disgrifiad ei fab Michael
Yr oedd fel morwyn yn y tŷ, ac fel gwas
llafurus, call, a diddiogi ar y tir. Ac yr oedd
mor athrilithgar nes y dysgodd trwy ymarferiad
gartref a thrwsio esgidiau fel crydd, gwneud
clocsiau fel y crefftwr gorau, gwneud basgedau
a chewyll, gwneud llidiardau fel saer coed, a
thrwsio llestri fel clychwr er yn ieuanc iawn
Bugail y defaid a phorthai y gwartheg yn
ddeheuig, medrus, a chwimwith cewai ac
agdyweiriau gloddiau cerrig gan dacluswd nes
y byddai yn cael ei ddiarheby yn y gym
dogaeth, Pan yn ieuanc iawn medai yr ŷd, toai
yr yd a'r gwair, a darna yr ŷd yn gynt a
thaclusach na braidd neb yr ardal. Lladdai
wair yn un ar bymtheg oed, cystal a
yn ei bluryf.

Newidiai lawer un ei grefft neu alwedig
aeth. ac roedd rhain yn medru llawer gorch
-l.

Yr Rheilffordd

Erstalwm yn Brincyr roedd yno rheilffordd ag roedd pobl yn mynd o Brynycyr i Pen-y-groes. Ag yn Bryncir roedd yno rhywun dwl wedi rhoi preniau ar y ffordd a dyna ddamwain fawr ag roedd yno saith wedi marw.

Llanllyfni 1889

Traders And Others

Evans Mary, Barmouth Inn.
Griffith Ellen, Shopkeeper.
Griffith William, Grocer.
Jones Ann, Shopkeeper,
Jones Ellen, Householder.
Jones Ellen, Grocer,
Jones John, Shopkeper.
Jones Williams, Bookseller.
Jones Williams, shopkeeper.
Hydgoed slate Quarry Co.
Morris Henry, Joiner.
Morris Robert, Watchmaker.
Owens, William, R. Bootmaker.
Parry John, Bootmaker,
Parry Laura, Fort Inn.
Parry Mary, Grocer.
Roberts Evan, Shopkeper
Roberts Evan, sergon Sea View.
Roberts John, Draper
Roberts, John, Tailor

Roberts Robert, Miller
Roberts Robert, O. Quarrymen's Armns
Roberts T.H., Temperance house
Roberts Wm., Bootmaker
Rowlands John, Woollen manufacturer
Vale of Nantlle frendy sowety
W.d Williams - secratary
William Griffith and co wrating slabe
Manufactures.
Williams Griffith T, grocer.
Williams Henry shopkeeper
Williams ~~Rober~~ John, Tailor.
Williams Margaret, Shopkeeper
Williams Robert, butcher
Williams Robert, Kings Head
Williams Thomas, Tailor
Williams W.D assisdant ~~oversse~~ ~~near~~
near Penygroes.

Bwthyn Nain

Bwthyn, heb fawr o bethau - a fu'n nef
I nain gynt a minnau
A bwryn o gors y bryniau
Yn'ôn do, n ein dau

John Rowlans

Llwybr Troed

"Rwyn hen a chloff, ond hoffwn - am unwaith
Cael myned, pe medrwn
I'm bro, a rhodio ar hwn,
Rhodio, lle gynt y rhedwn"

J. I. Jones

Clefyd y Llwch

Gwŷr heini, hwy a griant - gan y llwch
Ag yn llesg yr aethant
I'r chwarel ni ddychwelant.
Henwyr caeth yn hanner cant

Meirion Hughes

Pethau a Aeth

Fy nhad mawr pêr furedyn-yn min hwyr
Yn mwynhau ei fygun,
A mam yn humo emyn
Pethau aeth yw pethau hyn

I. Bowen Jones

Trade Directory - Llanllyfni 1889

Llanllyfni is a parish and village about 7 mils from Caernarfon. In the parish are also the village of Penygroes, Talysarn and Nantlle. The last named place, being also the name of the vale in which Llanllyfni parish is situated district covering all the great slate quarrie which are so numerous here. The London and North Western Railway have a Station at Penygroes and another at Talysarn, which is called Nantlle. Population of the parish in 1881, 5,520 Post Office - Ellen Jones - postmistress. Letters arrived from all parts at 7a:m, and are despatched at 6-30pm. St Rhedyw's Church, Rev Morris Roberts. Rector

Babtst Chaple, Rev Robert ~~Thomas~~ Jones
Calvinistic Methodist Chaple - Rev Robert Thomas Independent Chaple. Bord school. Edward Williams, master.

Privet Residents - Llanllyfni 1889
Mr Lloyd Jones - Brynaven
Mr Thomas - Felingerrig
Moris Robert - The Rectory

Mr. Owen. T. Owen – Dorothea
Thomas Robinson Esq Tanrallt
Parch Robert Thomas.

Llew Llaw Gyffes

Un tro roedd brenin o enw Math. Roedd
yn byw yn nghaer dathyl wrth Caernarfon.
Roedd gan y Brenin forwyn March o enw
Goewin o ddol bedin. Roedd bachgen yn
caru Goewin, ai enw oedd Gilffeuthwl
Ag roeddant am briodi ag nid allant wneud
hynu heb ganiatâd Math. Ag penderfynodd
Gilffeuthwl hudo ei ewythr oi chartref ag
wedyn penderfynodd godi Rhyfel. Sut gwnei
hynu? gwnddau am ddau frawd sudd yn
gwybod am Anfeiliad gwylltion. Teithiodd
y ddau i ddyfed a dwyn y moch
oddi ar y brenin. Yr oedd Milwyr Math
yn disgwyl eu gelynion ym Maenor Pennardd
yn Maenor coed Alun. Budd rhaid
iddunt ddianc drwy nantcall, a dol benmaen
ag bydd rhaid iddunt droi am adref
yn drist iawn.

... n glywodd Math ei bod wedi priodi roedd
yn ddig iawn. Roedd Arianrhod yn

chwaer i Gwydion. Fe gafodd Aariarnhon dau
blentyn; enw un oedd Dylan roedd
Dylan yn nofiwr medrus. Ag fe gafodd
Dylan ddamwain fawr iawn a fe
farwodd. Ag y babi arall nid oedd
ganddo enw. Ag wedi Dylan farw
nid oedd Arianrhod yn hoffi cadwr
babi. Fe wnaeth Gwydion brawd Arianrhon
am ei gadw. Un diwrnod fe aeth
Gwydion i tŷ (Arishnr) Arianrhon gofynodd
Arianrhon pwy oedd y bachgen? Wel
dy fachgen di yw ef. Beth yw dy enw?
nid oedd ganddo enw. Ni cheith enw
mi wnai rhoid enw iddo. Mam cas
wu ti dwedodd Gwydion. Yr oedd
Gwydion, Fe wnaeth ~~y~~ swyn i droi
gwymbau y fam ar babi na fysau
neb yn gwybod a dyna pwy oeddanb
Fe wnaeth un ~~ar~~ morynion wneud sgid
esgid iddi. Yn gyntaf wnaeth chai rhy
fawr, ag wedyn chai yn rhy fach
"Nid oes dim iw wneud ond iddi ddod

Caerengan

Robert Griffith Head mar 54 Farmer 15 acres Llanysdyrdw
Elisabeth wye mar 61 wife Llanllyfni
Anne Lloyd serrant unm 19 Dom-serr. Llanberis
John Jones Headwidow 47 Farmer 15 across Llanlly
Sarcha dowr un 18 farmers Dougter
Willam son un 16 Slate Quarrier
Mery Willtrams serrant widow 49 HouseKeeper
Aberdon. William Willtrans misilor un 21 Sailor
Llanestyn. Mae tŷ yn perthyn i'r spoore
ac y mae ganwnhw llawer o Anifeiliad.
Moch sydd ar y farm mwaf. Oedd
Castell ar y bryn erstalwm iawn.

Ffordd haearn
Y Rheilffordd.

1869 - adeiladwyd y rheilffordd o Gaernarfon i Afonwen
1872 - Penygroes i Nantlle

Roedd Ffordd Haearn a Chwarel doddfa'r Lon yn Nyffryn Nantlle i Caernarfon ar mwyn cario llechi yn y flwyddyn ~~1828~~ 1828

Tyrpegau

Defnyddiwyd yr arian a gasglwyd i gadw'r ffyrdd mewn cyflwr da

Tollau 2g 1p - ceffyl neu (throl) ful

4c 2p - ceffyl a throl (lled olwynion yn llai na 6 modfedd)

6c 2½p - Ceffyl a throl (lled olwynion yn fwy na 6 modfedd.

12c (Swllt) 5p - ceffyl a cherbyd a rhywun yn teithio ynddo.

10c - 4p am bob ugain anifail mewn gyrr

Dyma rai o alwedigaethau pentrefwyr Llanllyfni - Cyfrifiad 1871

Rheithor
Siopwr
Labrwr
Saer coed
Chwarelwr
Cigydd
Plastrwr
Teiliwr
Morwr
Nyrs
Pannwr
Crydd
Hyrwerthwr
Athro
Ffermwr
Gyrrwr Injian Chwarel
Melinydd
Saer maen
Milfeddyg

Garddwr
Gwehydd
Tafarnwr
{Clerc y Plwyf
(Clochydd
Tincer
Dilledydd
Plismon
Gwniadyddes
Masnachwr te
Disgybl athro
Morwyn
Gwas fferm
Golygydd
Masnachwr bara
Golchwraig
Hetwraig
Gwneuthurwr llechi ysgrifennu.

Dyma rai o dwadagaethau pentrefwyr Llanllyfni yng nghyfriad 1871

Rheithor
Siopwr
Lebrwr
Saer Coed
Chwarelwr
Cigydd
Plastrwr
Teilwr
Morwr
Gardadwr
Gwehdd
Gwenidog
Tafarnwr
Clwdwr Llythyrau
Nyrs
Pannwr
Crydd
Llyfrwerthwr
Athro
Ffermwr
Melinydd
Saer Maen
Milfeddyg

Llanllyfni 1910

Church. St. Rhedyw Rector, Rev, R. W, Jones
County, Court; Held at Caernarfon.
Early Closing Days Thursday 1pm.
Populattions 5,261

Postal A
A post and money order office under Caernarfon Telegraph offices, Pen-y-Groes, one mile distant. Delivery 8 a.m

Stuation: In the Eifion, Parliamentary Division of Caernarfonshire seven miles from Caernarfon
Railways, The nearest station is Pen-y-Groes.

Bradford Temperance house. W. Jones. Proprietor. Fort Tavarn.
Griffiths D. grocer, Post Office, Nebo.
Griffiths W. Bootmaker 101 High Road
Hughes T, bootmaker Brynmor, House
…es, grocer, Post Office, Nasareth

Jones, G, butcher
Jones, M, Stationer, grocer, confectioner, and variety
op, Llyfnwy House, Picture postcards of the distri
Jones, Robert grocer, tea dealer topacconist and
Confectioner, Shop Newydd
Jones W, (W,) H, baker confectioner and
flour dealer, etc,
Kings Head Hotel, E, Williams proprietress. Every
accuadion for cyclists and tourits
Llwydgoed slate Quarry Co, Ltd.
Morris, H, Bulder Bronturner Saw Mills
Owen John, boot and shoe maker Bradford House.
Also confectioner tobacconists, etc Boots and shoes made
to order
Parry E, bootmaker
Parry Laura, grocer, draper, and China dealer.
Liverpool House.
Pierce J. (bu) Bulders etc
Quarrymasens Arms
Roberts J draper Manchest House.
Robert a co draper.
Roberts Evan and son grocer, tea, and p



Lôn Ddŵr.

Un diwrnod yn Mehefin 1935 sylwodd fy hen nain i Sioned fod golwg rhyfedd iawn ar yr awyr. Roedd fy hen nain yn byw ar fferm Tŷn Pwll. Tua amser o'r cinio aeth popman yn dywyll, roedd storm ar ffordd. Aeth i chwilio am ganwyll a gwelodd nad oedd ganddi ond darn bychan iawn o ganwyll. Gwelodd nad oedd amser aeth i weiddi ar bawb i ddod i mewn i'r tŷ. Aeth y dynion ar anifeiliaid i'w cadw. Yn sydyn dyna glec fel bod yr awyr wedi torri'n ddau. Ar hyny dyma'r llifogydd mwyaf a welodd neb erioed. Aeth fy hen nain a phawb arall ir llofft gyda'r darn ganwyll. Erbyn hyn roedd y dŵr wedi boddi y rhan-isaf o'r tŷ ac roedd yn dal i godi. Cariai'r Dŵr popeth o'i flaen yn gaed a chloriau. Roedd tai yr rhan isaf o'r pentref o dan ddwr i gyd. Bu pobl yn hir iawn yn clirio llanast ar ol y llifogydd. Dywed fy



hen nain hyd ei bedd fod gwyrth
wedi digwydd y noson honno oherwydd fe
barodd y darn cannwyll drwy'r nos tan
y bore.





LLANLLYFNI
AFON LLYFNI
CAPEL Ebenezer
Tŷ Gwyn
CAPEL MORIA
Capel Salem
Ysgol
HENDRE Forion

Ty blle mae John Preish yn byw gwelais ef
yn rhoi mochyn yn y cart a mynd a
rho drwr tŷ i'r cart. Ag hefyd roedd
hen wraig o enw Ela Evans yn cadw
malwod ai rhoi mewn cwrw.

Idwen



Idw

…aith trwy Llanllyfni 1[?]0

Idw one Pan roeddwn yn cerdded drwy Llanllyfni ag heibio Glyn dwr. A arogl bara da yn dod ~~aro~~. Ag gweld y dynion yn dod adref oi gwaith. A twrw ei sgidiau mortholyb, rhai hefo ei beic. Byddau rhai

plant yn gofyn os caethants gwthior beic i fynu'r pentref. A y dynion wrth ei bodd yn cael spel cyn mynd adref at ei cinio ~~ar~~ gwaith. Weithiau bydd y plant am gael rhyw geini… Ar y ~~chw~~ Ged ~~bfed~~ o Orffennaf ag bydd y ffa… tryfa mawr yn dod i cae Robert Willia… Byddai Capeli yn llawn amser hyn. Bydd… becws yn y Llan a ninnau yn cario toes basn a chael ceiniog am ei cario gan rhyw hen wraig a myndi i nol or ol ysgol i cael ei crasu a dyna arogl da. Ag pan roeddwn yn mynd heibio



FISH
AND
CHIPS
OPEN
OPEN
ICE
LOLLY
OPEN

quite good


St Rhedyw
Tŷ'r Felin
Kingshead Inn
Tŷ Bach
Alun House
Cigydd a groser - Tyddyn Rhedyw
Tŷ temprans
Rhestai Tyddyn Rhedyw
Siop Hugh Jones - Groser
Rhestai Wellington
John Williams - teiliwr - Wellington house
Siop: Yr Hen Gwarî
Cigydd
Tŷ temprans
Tŷ Daniel Pugh
Tŷ Uchaf
Tŷ Golchi
Crydd
Masnachwr Bara
Pentre Canol
Pentre Canol
Fort Tavern
Post Office - Masnach
Rhestai Gwyndy
Rhestai Salem
Tŷ lodgin'
Capel Salem
Tŷ Capel
Bookseller - Llyfrwy House
Manchester House - Groser a theiliwr
Tafarn Bermo
Tŷ'r Ysgol
Ysgol Llanllyfni
Rhestai Bermo
London House
Mynwent Tynlon
Rhestai Rhedyw
Liverpool House - Siop
Rhestai Tynlon
Brynsisillt



Tŷ Daniel Parry
Cigydd a groser Tyddyn
Rhedyw
Tŷ Temprans
Siop
Yr Hen Gwari
Cigydd
Tŷ Temprans
Tŷ Daniel Pugh
Tŷ ychaf
Crydd
PENTREF CANOL
Kingshead
Alun Inn
Tŷ Bach
House
Siop Hugh Jones - Groser
RHESTAI WELLIGTON
John Williams - teilwr Welighton House
Cae chwarae
Tŷ Golchi
Masnachwr Bara
PENTRE CANOL
Fort Tavern
Post Office - masnachwr blawd
RHESTAI GWYNDY
Tŷ lodgin
Bookseller - Llyfrwy House
Manchester House - Groser a Lhalw
Capel Salem
Tŷ Capel
Tavern Berme
Tŷ'r ysgol
Ysgol Llanllyfni
London House
Mynwent Tynlon
RHESTAI RHEDYW
Liverpool House - SHOP
BRONturner
RHESTAI TYNLON
GWYN

i fesur ei throed. Fe ddoth yno ag yr oedd gan y bachgen bach fwa saeth, daeth dryw bach yno ag fe saethodd y dryw gyda bwa saeth ag oedd rhwng y gewyn croen ar asgwrn Chwerddodd Anrhaniad. Dyna ti wedi cael enw i'r bachgen Llew Llaw Gyffes.

Tŷ I… el Parry

GWYN

Dros y bont' a heibior beaus.
A minnau fel plant yn begio,
Arogl hyfryd toes yn crasu,
Ag o reodd ef yn blasu.
Siop John Griffudd gwerthu machines
A finnau yn clywed gyda fy nghlus
Swger ei henw - blind coch uwchben
A dyna ddwin clen.
Siop Pants y Gog ai ffenestr fawr.
Fe gewch weld rhai or pethau mawr.
Draw i Kings Head - cyrelf benwyr

O.K.